1.0 Cwmpas:

1.1 Darparu canllawiau ar gyfer cwblhau asesiad risg PA.

1.2 Sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau (Diwygio) Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, 2006 a chanllawiau rheoli iechyd a diogelwch (HSG 65) yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

2.0 Cyfrifoldeb:

2.1 Rheolwyr, goruchwylwyr, penaethiaid is-adrannau, swyddogion prosiect a swyddogion diogelwch.

2.2 Awgrymir mai Cyfadrannau/Adrannau Gwasanaeth Proffesiynol ddylai asesu'r gweithdrefnau sy'n cael eu defnyddio'n gyffredinol mewn Cyfadrannau/Adrannau Gwasanaeth Proffesiynol. Dylai asesiadau penodol gael eu cynnal gan yr unigolion hynny sy'n gyfrifol am yr ardaloedd lle mae'r gwaith hwn yn digwydd gan mai nhw fydd â'r wybodaeth orau am y math o weithgareddau sy'n cael eu cynnal. Dylai pob asesiad risg gael ei gynnal gan unigolion cymwys. Yn y cyd-destun hwn, mae unigolyn cymwys yn golygu rhywun sy'n gwybod am:

- Y gwaith sydd ynghlwm, trwy brofiad personol;
- Egwyddorion asesiadau risg ac atal perygl;
- Y pwnc arbennig sydd i'w asesu, trwy hyfforddiant er enghraifft.

2.3 Gall unigolion cymwys hefyd ddewis ymgynghori ag, a chynnwys, aelodau eraill o staff sy'n cyflawni'r gweithdrefnau sy'n cael eu hasesu yn ystod y drefn asesu risg, yn unol ag arfer da cydnabyddedig. Dylai'r canfyddiadau, ac yn arbennig, y mesurau rheoli a nodir yn ystod yr asesiad risg, gael eu dosbarthu i bawb fydd yn cael eu heffeithio ganddynt.

2.4 Disgwylir i'r unigolion fydd yn cael eu heffeithio gydymffurfio â'r mesurau rheoli a nodwyd ac a gafodd eu cyfathrebu yn ystod y drefn rheoli risg.

2.5 Mae'r Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd yn darparu Cyrsiau Hyfforddi Asesu Risg yn rheolaidd i staff Prifysgol Aberystwyth. Gall aelodau staff weld y cyrsiau hyfforddi fydd ar gael a neilltuo lle arnynt trwy'r ddolen isod: https://stafftraining.bis.aber.ac.uk/hs/list_courses.php.

3.0 Cyflwyniad:

3.1 ***Pam cynnal asesiad risg?***

3.1.1 Mae gan gyflogwyr ddyletswydd i ofalu dros, a diogelu, eu gweithwyr dan Adran 2 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974. Er mwyn gwneud hynny, mae'r Rheoliadau (Diwygio) Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, 2006 a HSG 65, 'Rheoli Iechyd a Diogelwch', yn mynnu bod asesiadau risg yn cael eu cynnal a'u cyfathrebu'n briodol.

3.1.2 Mae asesiad risg yn golygu y gall risg gael ei rheoli, ac yn amlygu'r mannau lle gall niwed ddigwydd ac asesu'n ddigonol a oes camau rhesymol yn eu lle. Mae'n help hefyd i adnabod peryglon pellach a gafodd eu hanwybyddu yn y gorffennol.

3.1.3 Nid cynhyrchu gormodedd o waith papur yw diben asesiadau risg, ond ymarfer pwysig i sicrhau bod gweithwyr sy'n cynnal gweithgareddau sy'n ymwneud â'r gwaith yn cael eu diogelu. Dylent arwain at allu rheoli gweithgarwch 'gymaint ag sy'n rhesymol ymarferol' i leihau'r perygl i lefel 'mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol'.

3.2 ***Pryd dylid cynnal asesiad risg?***

3.2.1 Dylid cynnal asesiad risg cysylltiedig ar gyfer unrhyw weithgarwch neu grŵp o weithgareddau a allai achosi niwed corfforol, meddyliol neu ariannol, beth bynnag fo'r difrifoldeb.

3.2.2 Dylid cynnal yr asesiad cyn dechrau ar y gwaith a allai achosi anaf neu afiechyd.

3.2.3 Bydd angen cynnal asesiad risg os yw cwmpas rhagarweiniol y gweithgarwch yn dangos y gallai peryglon achosi risg sylweddol a/neu os ydyw'n aneglur a yw'r rheolyddion cyfredol neu arfaethedig yn ddigonol mewn egwyddor neu'n ymarferol.

3.2.4 Ni fydd angen cynnal asesiad risg os yw'r astudiaeth ragarweiniol yn dangos yn glir fod y peryglon yn ddibwys neu os yw asesiad blaenorol wedi profi bod rheolyddion cyfredol neu arfaethedig:

a) yn cydymffurfio â gofynion neu safonau cyfreithiol sydd wedi'u hen sefydlu;
b) yn briodol ar gyfer y tasgau;
c) yn cael eu deall a'u defnyddio, neu y byddant yn cael eu deall a'u defnyddio gan y bobl berthnasol.

3.2.5 Lle nad oes angen asesiad risg, disgwylir, er hynny, fod rheolyddion yn parhau i gael eu defnyddio, lle bo'n briodol.

3.2.6 Ceir gofynion statudol ar gyfer cwblhau asesiadau risg penodol yn annibynnol ar asesiad risg safonol. Ymhlith y rhain mae:

a) Asbestos
b) Ymbelydredd Ïoneiddio
c) Plwm
d) Sŵn
e) Sylweddau Peryglus i Iechyd (CoSHH)
f) Cyfarpar Sgrin Arddangos
g) Codi a Chario
h) Cyfarpar Diogelu Personol
i) Organeddau a Addaswyd yn Enetig
j) Gweithio mewn Llefydd Cyfyng

3.2.7 Weithiau, gall y manylion gael eu cyfuno fel un asesiad (er enghraifft, codi a chario a Chyfarpar Diogelu Personol) ond ni fyddai'n briodol ar gyfer eraill (er enghraifft, codi a chario ac ymbelydredd ïoneiddio).

3.3 ***Beth dylai gael ei gynnwys mewn asesiad risg?***

3.3.1 Dylai asesiadau risg fod o gymorth i lunio proffil risg ar gyfer gweithgarwch neu fusnes. Dylai drafod:

a) Natur a lefel y risg
b) Tebygolrwydd effeithiau andwyol yn digwydd a lefel y tarfu
c) Costau sy'n gysylltiedig â phob math o risg
d) Effeithiolrwydd y rheolyddion cyfredol i reoli'r risg

3.3.2 Mae'r Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd wedi datblygu templed asesu risg a ddylai gael ei ddefnyddio ar gyfer holl weithgareddau priodol PA. Mae'r templed hwn yn darparu fframwaith ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â HSG65.

4.0 Ymarfer:

4.1 ***Adnabod:***

4.1.1 *Gweithgarwch:*

a) Gellir diffinio'r gweithgarwch i'w asesu gan swyddogaethau penodol adran neu is-adran (e.e. proses neu weithrediad yn defnyddio eitem neu beiriant neu gyfarpar); gwaith sy'n cael ei wneud mewn ardal ddiffinedig; neu waith sy'n cael ei wneud gan unigolion neu grwpiau o bobl (e.e. staff rheoli cynnal a chadw)

4.1.2 *Peryglon hysbys a pheryglon y gellir eu rhag-weld:*

a) Gellir adnabod y rhain trwy ddadansoddi'r wahanol swyddi y mae pobl yn eu gwneud; trwy archwilio'r gweithle; siarad â gweithredyddion; ymgynghori â thaflenni data diogelwch deunyddiau neu gyfeirlyfrau; asesu gweithdrefnau cyfredol; neu ddadansoddi cofnodion digwyddiadau.
b) Rhestru'r cyfryngau, sylweddau, cyfarpar, peiriannau ac offer peryglus neu'r prosesau eu hunain (e.e. gweithio mewn mannau uchel).

4.1.3 *Pobl sydd mewn Perygl:*

a) Noder pwy fydd yn ymwneud â'r peryglon yn Adran 4.1.2
   i. Nid oes angen enwi unigolion (e.e. Twm Jones), ond dylid nodi'r swydd (e.e. 'gweithredydd' neu 'wyliwr')
b) Gall fod yn bwysig i nodi'n benodol:
   i. Gyflyrau meddygol sy'n berygl ychwanegol
   ii. Alergeddau sy'n peryglu bywyd
   iii. Pobl ifainc

4.2 ***Categoreiddio'r Risg:***

4.2.1 Mae hyn yn ymwneud â goblygiadau'r peryglon a nodwyd yn Adran 4.1.2 sy'n peri niwed

4.2.2 Gellir asesu hynny trwy Atodiad B ar y ffurflen asesu risg

a) Dylai'r tebygolrwydd o niwed a'i ddifrifoldeb pe bai'n digwydd gael ei ddefnyddio i gynhyrchu ffactor risg gyffredinol ar gyfer y perygl.

b) Dylid asesu'r risg fel pa na bai mesurau rheoli yn eu lle

c) Efallai bydd tebygolrwydd o'r perygl yn digwydd yn ymwneud â ffactorau megis profiad y gweithredydd, dibynadwyedd y cyfarpar neu amgylchiadau amgylcheddol er enghraifft

d) Matrics risg:

Matrics risg – defnyddiwch hwn i bennu'r risg ar gyfer pob perygl *h.y. 'pa mor wael a pha mor debygol'*	**Tebygolrwydd Niwed**				
Difrifoldeb y niwed	**Annhebygol iawn (1)**	**Annhebygol (2)**	**Eithaf Tebygol (3)**	**Tebygol (4)**	**Tebygol Iawn (5)**
Dibwys (1) e.e. clais bach	**1**	**2**	**3**	**4**	**5**
Bychan (2) *e.e. cwt bach, clais dwfn*	**2**	**4**	**6**	**8**	**10**
Cymhedrol (3) *e.e. cwt dwfn, cyhyr wedi'i rwygo*	**3**	**6**	**9**	**12**	**15**
Difrifol (4) *e.e. toriad, colli ymwybyddiaeth*	**4**	**8**	**12**	**16**	**20**
Difrifol Iawn (5) *e.e. marwolaeth, anabledd parhaol*	**5**	**10**	**15**	**20**	**25**

4.3 ***Lleihau'r Risg/Mesurau Rheoli:***

4.3.1 Gellir defnyddio'r byrfoddau Saesneg "ERIC PD" yma, sy'n cynrychioli 'Hierarchaeth Rheoli Peryglon':

a) **E** – *Dileu (Eliminate)* – Ailgynllunio'r dasg neu ddefnyddio sylweddau penodol i ddileu'r perygl. E.e. Osgoi gweithio mewn llefydd uchel

b) **R** – *Newid (Replace)* – Newid y deunydd neu'r broses i leihau'r perygl. E.e. Defnyddio esgynlawr gwaith symudol yn hytrach nag ysgol ar gyfer gweithio mewn llefydd uchel

c) **I** – *Ynysu (Isolate)* – Defnyddio rheolyddion peirianyddol i reoli'r perygl. E.e. gosod system awyru pibell wacáu leol i atal y perygl neu wahanu'r perygl oddi wrth y defnyddiwr

d) **C** – *Rheolyddion (Controls)* – Defnyddio rheolyddion gweinyddol i leihau'r perygl. E.e. lleihau'r amser o fod yn agored i niwed a darparu hyfforddiant

e) **P** – *Cyfarpar Diogelu Personol* (PPE)– Dim ond ar ôl rhoi cynnig ar yr uchod, a'u cael yn aneffeithiol ar gyfer rheoli risgiau 'gymaint ag sy'n rhesymol ymarferol' i lefel 'mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol', rhaid darparu Cyfarpar Diogelu Personol.

f) **D** – *Disgyblaeth (Discipline)* – Nid mesur terfynol mohono; dylid ei weithredu yn ystod pob cam o'r hierarchaeth reoli ac mae'n cynnwys cyfathrebu effeithiol a sicrwydd fod yr holl weithdrefnau a amlinellir yn Adran 4.3 yn cael eu dilyn.

4.3.2 Y mesurau rheoli cyfredol ac arfaethedig ar gyfer lleihau'r risg y bydd un o'r peryglon a nodir yn Adran 4.1.2 yn digwydd

4.3.3 Cyfathrebu canlyniadau'r asesiad risg i'r holl staff sy'n ymwneud â'r broses/y dasg

4.4 ***Cloriannu'r Perygl sy'n Weddill:***

4.4.1 Gellir ei gloriannu trwy ddefnyddio'r matrics risg yn Adran 4.2.2.d

4.4.2 Dylid ei ddefnyddio fel yn Adran 4.2, ond y tro hwn, gan gymryd i ystyriaeth y strategaethau i leihau risg a roddwyd ar waith yn Adran 4.3

4.4.3 Yn ystod y broses hon, dylid ymgynghori â'r trefniadau presennol, systemau gwaith diogel, gweithdrefnau a chyfarwyddiadau cymeradwy

4.4.4 Penderfynu a yw'r trefniadau, y gweithdrefnau a'r rheolau presennol (yn cynnwys y rhai hynny a ddatblygwyd yn Adran 4.3) yn briodol yng nghyd-destun natur a graddfa'r peryglon a'r risgiau

4.4.5 Os daw'r asesiad i'r casgliad fod y rhagofalon presennol neu arfaethedig yn annigonol neu fod y perygl sy'n weddill yn rhy uchel i ganiatáu i'r dasg neu'r gweithgarwch ddechrau, rhaid datblygu rhagofalon ychwanegol neu amgen. Gan y byddai hynny'n gofyn am newid i'r broses, byddai angen adolygu'r asesiad risg gwreiddiol, ar sail y newidiadau hynny.

5.0 **Adolygu Asesiadau Risg:**

5.1 Dylid adolygu asesiad risg yn rheolaidd. Dylid eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn, neu yn dilyn digwyddiad neu ar ôl cyflwyno cyfarpar, sylweddau a/neu weithdrefnau newydd sy'n cyflwyno peryglon newydd neu wahanol i'r gweithle.

5.2 Gall fod newidiadau i'r gyfraith, staff, amgylchedd gwaith

5.3 Gall fod angen adolygu os bu digwyddiad neu os cafwyd achos o fod o fewn trwch blewyn i ddigwyddiad sy'n gysylltiedig â gweithgarwch o'r fath neu os cyflwynwyd cyfarpar newydd, er enghraifft.

5.4 Mae Polisi Iechyd a Diogelwch Prifysgol Aberystwyth yn datgan bod angen adolygu asesiadau risg yn rheolaidd er mwyn pennu a ydynt yn parhau yn gywir.

5.5 Dylid nodi dyddiad yr adolygiad nesaf a'r asesydd ar y ffurflen asesu risg.

6.0 Cymeradwyo Asesiadau Risg:

6.1 Gall fod yn fanteisiol i lunio'r asesiad risg gyda'r defnyddiwr/defnyddwyr er mwyn perchenogi'r asesiad; mae gwneud hynny yn ffordd effeithiol o gyfathrebu'r canlyniadau yn ogystal

6.2 Rhaid llofnodi a dyddio'r asesiadau i ddangos bod y ddogfen wedi'i chymeradwyo

7.0 Cadw Cofnodion:

7.1 Rhaid storio asesiadau risg cyfredol mewn lleoliad priodol ar system leol er mwyn i'r holl bobl fydd angen eu gweld allu eu gweld yn rhwydd

7.2 Rhaid archifo fersiynau blaenorol o'r asesiad risg ar system leol

8.0 Gwybodaeth Bellach a Chyfeiriadau:

8.1 Gwefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch:www.hse.gov.uk

8.2 Asesiad Risg yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: *A brief guide to controlling risks in the workplace*: www.hse.gov.uk/pubns/indg163.pdf

8.3 Rheolidau (Diwygio) Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 2006; www.legislation.gov.uk/uksi/2006/438/note/made

8.4 Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999: www.legislation.gov.uk/uksi/1999/3242/regulation/3/made

8.5 Gwefan Asesu Risg Prifysgol Aberystwyth: www.aber.ac.uk/en/hse/proc-prac/risk-assessment/

9.0 **Templed Asesu Risg**

Disgrifiad Cryno o'r Gweithgarwch:					**Asesydd(ion):**	**Dyddiad:**		
Perygl:	**Pobl mewn Perygl:**	**Ffactor Risg:**			**Mesurau Rheoli Gofynnol:**	**Risg sy'n Weddill:**		
Rhestrwch yr hyn a allai beri niwed o'r gweithgarwch hwn, gan ddefnyddio atodiad A i'ch cynorthwyo i adnabod peryglon	Rhestrwch yr unigolion a allai gael eu brifo, e.e. Staff, myfyrwyr, ymwelwyr	Ar gyfer pob perygl, pennwch lefel y risg fel pe baech yn gwneud y gweithgarwch heb reolyddion			Ar gyfer pob perygl, rhestrwch y mesurau y byddwch yn eu cymryd i leihau'r risg a nodwyd, e.e. penodi unigolion cymwys, hyfforddiant a dderbyniwyd, cynllunio ac ymarferion, defnyddio cyfarpar diogelu personol	Ar gyfer pob perygl, pennwch y risg sy'n weddill ar Ôl sefydlu mesurau rheoli		
		Difrifoldeb	**Tebygolrwydd**	**Risg**		**Difrifoldeb**	**Tebygolrwydd**	**Risg**

Llofnod		Dyddiad			Dyddiad ar gyfer adolygu'r asesiad risg			